**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 20 TACHWEDD 2019**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones, A.J.Taylor, C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Phillips, H.Jenkins, A.Evans, K.Jones, A.Thomas, C.Griffiths, H.Jones, PWalker, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-20**

Fe'i nodwyd gan y pwyllgor

3. **CYFRIFO SYLFAEN TRETH Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020-21**

**Penderfyniadau:**

1. Cytuno ar y swm gros o £48,585.61, cyn ychwanegu'r gyfradd gasglu, ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan (£48,098.04 ar ôl ychwanegu'r gyfradd gasglu 97%).

2. Bod Sylfaen Treth y Cyngor, mewn perthynas ag ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu gan gynghorau tref a chymuned, yn cael ei chyfrifo fel isod (ar ôl ychwanegu'r gyfradd gasglu o 97%):

| Cynghorau Tref a Chymuned | Sylfaen Treth y Cyngor |
|---|---|
| Blaengwrach | 371.78 |
| Blaenhonddan | 4,591.25 |
| Llansawel | 1,877.11 |
| Clun a Melin-cwrt | 261.36 |
| Coedffranc | 3,620.28 |
| y Creunant | 676.79 |
| Dyffryn Clydach | 1,101.14 |
| Glyn-nedd | 1,381.55 |
| Castell-nedd | 6,515.01 |
| Onllwyn | 374.93 |
| Pelenna | 403.79 |
| Resolfen | 734.88 |
| Blaendulais | 634.91 |
| Tonna | 955.85 |
| Cilybebyll | 1,953.37 |
| Cwmllynfell | 387.41 |
| Gwauncaegurwen | 1,339.52 |
| Pontardawe | 2,532.78 |
| Ystalyfera | 1,599.88 |

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Penderfynu Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2020/21.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Mae'r penderfyniadau'n rhai brys i'w rhoi ar waith ar unwaith, yn dilyn caniatâd y Cadeirydd Craffu perthnasol, ac felly nid yw'n destun y weithdrefn galw i mewn.

4. **ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R DRYSORFA 2019-20**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

5. **MODEL AMGEN AR GYFER Y CYNGOR POBL HŶN**

**Penderfyniad:**

Y dylid newid y Cyngor Pobl Hŷn o'i fodel cyfredol i gynghrair/ffederasiwn sefydliadau, sy'n cynrychioli barn pobl hŷn, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I sicrhau bod barn pobl hŷn ar draws y fwrdeistref sirol yn cael eu cynrychioli.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

6. **TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - ARCHWILIAD O ASESIAD PERFFORMIAD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT AR GYFER 2018-19**

Nododd yr aelodau y byddai cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru'n bresennol yng nghyfarfod nesaf y cyngor i gyflwyno Adroddiad Gwella Blynyddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2018-2019.

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

7. **CYNNIG PROSIECT A GYFLWYNWYD I GRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU**

**Penderfyniad:**

Y gosodir system llifoleuadau LED ynni effeithlon yng Nghlwb Rygbi Cwmllynfell (Pen-y-Bryn, Cwmllynfell, Abertawe), a dyfarnu £2,472.80 o ddyraniad y Cynghorydd Huw Jones dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cais am gyllid a dderbyniwyd dan Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

9. **CANOLFAN CELFYDDYDAU PONTARDAWE**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I wella perfformiad ariannol Canolfan Celfyddydau Pontardawe a sicrhau bod yr ased cymunedol hwn yn cael ei wella a'i ehangu ar gyfer y gymuned leol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **PARC MARGAM**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I wella perfformiad ariannol Parc Margam, gan greu swyddi cynaliadwy a pharhau i gyfrannu at nodau lles y cyngor yn y cynllun integredig sengl.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**